

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
DYDDIAD	4ydd o Fai 2013
PWNC	Adroddiadau Aelodau
PWRPAS	Cyflwyno'r sefyllfa diweddaraf ynghylch datblygiadau gydag adroddiadau aelodau ar gyfer 2012/13.
Awduron	Cynghorydd Les Day, Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
	Geraint George Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

1. Adroddwyd eisoes i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar ofynion Mesur Llywodraeth Leol Cymru (2011) ar gyfer sicrhau fod y Cyngor yn gwneud trefniadau i aelodau allu llunio adroddiad blynyddol petaent yn dymuno.
2. Pwrpas yr adroddiad yma yw cyflwyno y sefyllfa diweddaraf o ran datblygiadau a gweithrediad i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.
3. Yn dilyn trafodaeth ar y mater yng nghyfarfod diwethaf y pwyllgor hwn, bu i mi ohebu gyda'r holl aelodau ar yr 8fed o Ebrill yn
 - adrodd ar ein penderfyniad fel pwyllgor i ymgymeryd â pheilot o'r drefn am 12/13
 - Yn nodi fod rhyddid i unrhyw aelod gynhyrchu adroddiad blynyddol
 - yn gofyn i aelodau ddatgan os oeddent yn bwriadu llunio adroddiad
 - ac yn hysbysu aelodau y byddai canllawiau manylach i ddilyn.
 (Gweler copi yn **Atodiad A**).
4. Yn dilyn cyfarfod blynyddol y Cyngor llawn, lle diweddarwyd yr holl aelodau o'r datblygiadau yng nghyd-destun yr adroddiadau blynyddol (fel rhan o'r adroddiad diweddarau ar gefnogaeth i aelodau) dosbarthwyd canllawiau pellach i aelodau etholedig ar 9fed o Fai. Roedd y canllawiau manwl eisoes wedi eu trafod a'u cyd-weld gan Grwp Busnes y Cyngor ddiwedd Ebrill. Gweler copi yn **Atodiad B**.
5. Wrth i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi, roedd 6 aelod etholedig wedi cysylltu i nodi eu bwriad i gyhoeddi adroddiad blynyddol. Cyflwynir adroddiad ar lafar yn ystod y Pwyllgor o'r niferoedd sydd wedi cyflwyno erbyn diwedd Mai yn unol â'r gofyn.
6. Gellir trafod 'gwersi a ddysgwyd' agoriadol yn ystod y cyfarfod hwn, ond argymhellir fod y drafodaeth ar y ffordd ymlaen (i gynnwys gwersi a ddysgwyd o safbwynt yr aelodau a'r Cyngor) yng nghyd-destun adroddiadau blynyddol i ddigwyddyn fwy amserol yn ystod cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 10fed o Fedi 2013.

Adran Strategol a Gwella
Strategic and Improvement Department

Cynghorydd / Councillor Lesley Day

Gofynnwch am/Ask for: **Vera Jones**

☎ (01286) 879267

✉ VeraJones@gwynedd.gov.uk

Ein Cyf / Our Ref:

Eich Cyf / Your Ref:

Sfed Ebrill, 2013

At: Holl Aelodau Etholedig

Amwyl Gyd-Aelod

Adroddiadau Blynyddol gan Aelodau Etholedig

Fel yr ydych yn ymwybodol, mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn nodi ei bod yn ofynnol i'r Cyngor wneud trefniadau i alluogi aelodau etholedig unigol i gyhoeddi adroddiad blynyddol. Fodd bynnag, nid oes gorfodaeth ar unrhyw aelod i baratoi adroddiad o'r fath.

Trafodwyd y mater yn y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 20/03/2013. Tra ei bod yn ddewis i unrhyw aelod gyhoeddi adroddiad blynyddol, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Aelod Cabinet Gofal Cwsmer a finnau, fel Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn unig yn llunio adroddiad blynyddol ar gyfer 2012/13. Bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu cyhoeddi, yn unol â gofynion, ar wefan y Cyngor erbyn diwedd Mehefin 2013.


Bydd gweithredu fel a nodir uchod yn ein galluogi ni fel aelodau i arbrofi a dysgu o wahanol brofiadau ac enghreifftiau. Yn ogystal, bydd yn caniatáu staff y Cyngor i adnabod ac asesu y gefnogaeth briodol sydd angen ei roi mewn lle er mwyn ein cefnogi ni fel aelodau wrth baratoi y gwaith hwn. Rhydd gyfle i ni ddysgu gwersi o'r ymarferiad ar gyfer 2012/13 gan ein paratoi ar gyfer llunio cyfeiriad ac arweiniad cliriach i weddill yr aelodau sy'n dymuno cyhoeddi adroddiad blynyddol ar gyfer 2013/14.

Buaswn yn ddiolchgar iawn, os yn bwriadu cyhoeddi adroddiad ar gyfer 2012/13, eich bod yn cysylltu gydag Arwel Ellis Jones, Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol, neu Vera Jones, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd gynted ag y bo modd er mwyn sicrhau fod y gefnogaeth briodol mewn lle ar eich cyfer.

Hoffwn hefyd gymryd y cyfle hwn i annog aelodau sy'n dymuno cyhoeddi adroddiad blynyddol yn y dyfodol i ddechrau cadw cofnod o'r cyfarfodydd ac yn y blaen y maent yn eu mynychu trwy gydol y flwyddyn.

Bydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn eich diweddarau o'r gwersi a ddysgwyd maes o law.

Yn gwir,



Cynghorydd Les Day
Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
01766 771000
www.gwynedd.gov.uk

CANLLAWIAU AR GYFER AELODAU ETHOLEDIG CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIADAU BLYNYDDOL AR GYFER 2012/13.

Gofynion Mesur Llywodraeth Leol Cymru (2011)

4. Rhaid i awdurdodau lleol **wneud trefniadau**
 - *I bob person sy'n aelod o'r awdurdod lunio adroddiad blynyddol ynghylch gweithgareddau'r person fel aelod o'r awdurdod yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi,*
 - *i bob person sy'n aelod o weithrediaeth yr awdurdod lunio adroddiad blynyddol ynghylch gweithgareddau'r person fel aelod o'r weithrediaeth yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi, ac*
 - *i'r awdurdod gyhoeddi pob adroddiad blynyddol sy'n cael ei lunio gan ei aelodau a chan aelodau ei weithrediaeth.*
5. *Caiff y trefniadau gynnwys amodau o ran cynnwys adroddiad y mae'n rhaid iddynt eu bodloni gan y person sy'n ei lunio.*
6. *Rhaid i awdurdod lleol roi cyhoeddusrwydd i'w drefniadau.*
7. *Wrth arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon rhaid i awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.*

Cefndir

- Bwriad yr Adroddiad Blynyddol gan yr Aelodau Etholedig yw gwella cyfathrebu rhwng Aelodau Etholedig a'r cyhoedd, mewn geiriau eraill, cyflwyno gwybodaeth i unigolion o'r ward.
- Mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol yn nodi y bydd yr adroddiadau yn gyfrwng i wella dealltwriaeth y cyhoedd o'r hyn y mae eu haelodau lleol yn ei wneud a'r rôl bwysig sydd ganddynt. (hynny yw, galluogi aelodau'r cyhoedd i ddod o hyd i wybodaeth am weithgarwch eu cynghorydd lleol)
- Mae hefyd wedi nodi y bydd yn rhydd i bob awdurdod lleol ddewis eu fformat eu hunain ar gyfer yr adroddiadau. (hynny yw, gall awdurdodau lleol roi eu cyfyngiadau eu hunain ar gynnwys adroddiadau).
- Dim ond gwybodaeth ffeithiol y dylai adroddiadau blynyddol ei chynnwys.
- Mae hynny'n awgrymu mai gwybodaeth am gyfarfodydd, digwyddiadau, cynadleddau ac ati a fynychwyd gan y cynghorydd y dylid ei chynnwys yn bennaf, ynghyd ag unrhyw weithgareddau hyfforddi a datblygu.
- Er y gallai fod yn dderbyniol cynnwys gwybodaeth fod aelod "wedi gwneud sylwadau ar ran yr ymgyrch i achub yr ysbyty lleol yn y ffyrdd canlynol", ni fyddai'n dderbyniol dweud fod aelod "wedi llwyddo i achub yr ysbyty lleol yn sgil ei ymdrechion ar ran ei etholwyr."
- Yn yr un modd, dylid osgoi cynnwys gwybodaeth mewn adroddiadau yn ymwneud â gweithgareddau a gwblhaodd yr aelod y tu hwnt i'w rôl fel cynghorydd. Felly, er y byddai'n dderbyniol cynnwys gwybodaeth am araith a roddodd aelod mewn cynhadledd yr oedd yn ei mynychu yn rhinwedd ei rôl yn y cyngor, ni fyddai'n

dderbyniol cyfeirio at araith a roddodd mewn cynhadledd plaid wleidyddol, er enghraifft, ac yntau yno fel cynrychiolydd cangen leol ei blaid.

- Dylid gofalu hefyd nad yw'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth y gellid ei dehongli fel beirniadaeth o aelod arall. Er enghraifft, ni fyddai'n dderbyniol i aelod gymharu ei bresenoldeb neu ei weithgareddau â aelod arall neu aelodau eraill.
- Dylid gofalu nad yw'r adroddiad yn cynnwys rhywbeth nad yw'n ffeithiol / sydd â blas gwleidyddol arno

Cynnwys - eitemau safonol i'w cynnwys:

- **Rôl a chyfrifoldebau** – gan gynnwys manylion aelodaeth o bwyllgorau a chyrrff allanol, cofnodion presenoldeb yn y rhain ac yn y cyngor llawn.
- **Gweithgarwch lleol** – manylion unrhyw gymorthfeydd a gynhaliwyd a sylwadau a wnaed ar ran etholwyr, a chanlyniadau'r rhain.
- **Prosiectau mawr** – manylion unrhyw fentrau neu brosiectau lleol, sirol neu ranbarthol y bu'r aelod yn rhan ohonynt.
- **Dysgu a datblygu** – manylion digwyddiadau hyfforddi a datblygu a fynychwyd neu a ddilynwyd, a chynadleddau a seminarau a fynychwyd

Amserlen a chyfyngiadau

1. Dylid crynhoi'r wybodaeth i uchafswm o ddwy dudalen er mwyn i'r cyhoedd fod yn gallu eu darllen yn hawdd (*disgwyllir i hyn fod o fewn y canllawiau statudol*).
2. Rhaid cyflwyno'r adroddiad drafft i'r Uwch Reolwr Comisiynu Corfforaethol (Arwel Ellis-Jones) erbyn 31 Mai 2013. Bydd y Cyngor yn trefnu cyfieithu'r adroddiad os yw'r aelod yn dymuno ac yn cyflwyno o fewn yr amserlen.
3. Dylid cyfeirio ceisiadau am wybodaeth ffeithiol am nifer pwyllgorau a fynychwyd/ sesiynau hyfforddiant at y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (Vera Jones) gynted ag y bo modd
4. Dylid bod yn barod i drafod y cynnwys yr adroddiad gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (Geraint George) os yw o'r farn nad yw'n cyd-fynd gyda chanllawiau y Mesur, cyn i'r adroddiad gael ei gyhoeddi. Cyhoeddir adroddiadau sy'n cyd-fynd gyda'r canllawiau yn unig.
5. Cyhoeddir yr adroddiadau terfynol gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd erbyn diwedd Mehefin 2013 ar safle we'r Cyngor yn electroneg yn unig (*rydym yn parhau i ddisgwyl cadarnhad am y dyddiad cyhoeddi yn y canllawiau statudol*).